Dathlu Cymru Wledig
Celebrating Rural Wales

RGC WRN
Rhwydwaith Gwledig Cymru
Wales Rural Network



# Pobl Ein Dyfodol

Cymunedau Arloesol

## CREU DYFODOL CYNALIADWY

Gydag effeithiau newid hinsawdd a diraddio amgylcheddol yn cael eu hadrodd yng nghyfryngau'r byd, mae llawer o bobl ifanc yn bryderus am ddyfodol y blaned. Mae rhai pobl ifanc yn mynd ati i chwilio am ffyrdd o helpu'r amgylchedd, efallai bod eraill yn ymwybodol o'r heriau ond yn teimlo'n ddiymadferth, tra efallai nad yw eraill yn deall digon am ddyfodol carbon isel.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth a helpu pobl ifanc i deimlo eu bod wedi'u grymuso yn yr ymdrech i frwydro yn erbyn newid hinsawdd, yn 2018, dechreuwyd prosiect ynni cynaliadwy ar gyfer ysgolion uwchradd ym Mhowys.

Daeth prosiect Pobl Ein Dyfodol â dau o brosiectau mwyaf llwyddiannus Asiantaeth Ynni Hafren Gwy ynghyd; enillodd 'Pobl Ynni Ifanc' ac 'Eich Dyfodol Gwyrdd' wobrau mawreddog am eu cyfraniad at addysg cynaliadwyedd. Nod y rhaglen oedd lleihau defnydd ysgolion o ynni a gwella cynaliadwyedd eu gweithrediadau wrth roi cyfle addysgol gwerthfawr i fyfyrwyr.

Trwy'r rhaglen, byddai myfyrwyr yn datblygu ystod o sgiliau trosglwyddadwy, yn cynyddu eu hunanhyder ac yn datblygu ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol yn ogystal â'r amrywiaeth eang o gyfleoedd am swyddi sydd ar gael o fewn yr 'economi werdd' sy'n ehangu o hyd.

Byddai gweithgareddau'r rhaglen yn cynnwys paratoi prosiectau; digwyddiad rhyngweithiol a gweithdai; sefydlu tîm rheoli ynni ar gyfer yr ysgol; sesiynau hyfforddi myfyrwyr; arolwg ynni ysgol; lledaenu canfyddiadau'r arolwg; ymgyrch ynni ysgol ac arolwg gweithle.

## BUDDION Y CYLLID

Yn 2018, o dan thema Cymunedau Arloesol LEADER, derbyniodd prosiect Pobl Ein Dyfodol £160,643 o gyllid drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020, a ariannwyd gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Mae prosiect Pobl Ein Dyfodol wedi cyflawni ei nodau ac wedi gwneud cynnydd sylweddol ers iddo ddechrau, ac adroddwyd bod mwy o frwdfrydedd ac ymgysylltiad gweithredol ymhlith y 2,718 o bobl ifanc gymerodd ran yn y rhaglen. Gyda 4,554 o fyfyrwyr wedi cysylltu i ddechrau ar draws 10 ysgol uwchradd, dwy ysgol arbennig ac un ysgol gynradd ym Mhowys, mae'r ymgysylltu wedi bod yn galonogol.

Un elfen o'r rhaglen sydd wedi gweithio'n arbennig o dda yw'r Tîm Rheoli Ynni Ysgol. Gyda 156 o fyfyrwyr yn cymryd rhan, mae'r Timau Rheoli Ynni Ysgol wedi dangos cynnydd mewn gwaith tîm, llythrennedd a sgiliau ymgeisio am swyddi.

Drwy fynychu digwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd, adroddodd y prosiect hefyd gynnydd nodedig yng ngwybodaeth a dealltwriaeth pobl ifanc o ddyfodol carbon isel. Roedd 605 o fyfyrwyr yn bresennol ac roedd y digwyddiadau llwyddiannus yn amlygu'r dewisiadau sy'n arwain at fywyd mwy cynaliadwy.



Mae'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder a enillwyd drwy'r rhaglen wedi galluogi myfyrwyr i roi cyflwyniadau i Lywodraethwyr ac Uwch Dimau Arwain. Mae wedi bod yn ffordd effeithiol i'r myfyrwyr fynegi eu barn mewn amgylchedd busnes.

Nid yn unig y mae'r rhaglen wedi bod o fudd i fyfyrwyr ond hefyd i staff addysgu'r ysgolion. Teimlai athrawon fod digwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd yn canolbwyntio ar agweddau a oedd yn berthnasol i'r cwricwlwm ac yn rhoi syniadau iddynt ar gyfer gwaith trawsgwricwlaidd, tasgau estynedig a rhyngweithio â busnesau yn y dyfodol.

Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan hefyd wedi gweld manteision amgylcheddol yn syth ar ôl y prosiect. Adroddodd ysgolion ostyngiad mewn biliau ynni (ar gyfartaledd £4,036 yng Ngham 1 a £4,412 yng Ngham 2 y flwyddyn) a llai o allyriadau carbon (cyfanswm o 79.91 tCO2 mewn ysgolion Cam 1 a 71.75 tCO2 yng Ngham 2).



## MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...

"Rydym yn falch iawn o weld y prosiect yn mynd o nerth i nerth. Er bod y cymorth ariannol wedi ein helpu i ddechrau a ffurfio sylfaen gadarn ar gyfer y prosiect, credwn hefyd fod ei lwyddiant parhaus i'w briodoli i ymrwymiad a brwdfrydedd y myfyrwyr, y staff addysgu a'n partneriaid busnes.

"Mae addysg cynaliadwyedd yn rhoi cyfle i bobl ifanc gyfrannu at eu dyfodol mewn ffordd ddiriaethol ac ystyrlon. Er mwyn rhoi 'llais' a hunanhyder i fyfyrwyr, mae wedi bod yn galonogol eu gweld yn rhyngweithio â staff cymorth, fel aelodau o safle'r ysgol a thimau cyllid, mewn ffordd nad ydynt efallai wedi gwneud o'r blaen.

"Roeddem hefyd wrth ein bodd o glywed bod digwyddiadau Eich Dyfodol Gwyrdd yn llwyddiant mawr ac wedi cael eu gwerthfawrogi gan y myfyrwyr a oedd yn bresennol. Roedd yn werth chweil eu gweld yn magu hyder ac yn cyflwyno o flaen cynulleidfa, gan ennill sgiliau siarad cyhoeddus allweddol yn ogystal â sgiliau gwrando.

"O'r herwydd, mae'r rhaglen wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu ystod eang o sgiliau trosglwyddadwy gan gynnwys gwaith tîm, gwneud penderfyniadau, datrys problemau, rhifedd, llythrennedd a TG. Gyda'r sgiliau hyn, rydym yn hyderus y bydd y myfyrwyr yn gallu cymhwyso'r rhain i wella eu gwaith cwricwlwm.

"Er bod y prosiect wedi dod â'r gymuned ysgol gyfan ynghyd i weithio tuag at achos cyffredin, mae hefyd wedi helpu myfyrwyr i ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol ar lefel leol a byd-eang. Ar y cyfan, rydyn ni'n credu bod y prosiect wedi rhoi profiad cyfoethog i bawb a bydd y pethau bach rydyn ni'n eu gwneud nawr yn cael effaith gadarnhaol ar ein planed a'n dyfodol."

Owen Callender, Asiantaeth Ynni Hafren Gwy